At: Swyddogion Cyfrifol

Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog Cymwysterau Cymru

Diolch i'r rhai ohonoch a wnaeth fynychu ein Fforwm Cyrff Dyfarnu ar 13 Rhagfyr 2016 a chyfrannu at y drafodaeth am ein blaenoriaethau. Byddwch wedi gweld ein bod wedi cyhoeddi'r ail fersiwn o'r Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog. Mae'r polisi yn disgrifio'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt hyd at fis Mai 2017, sef:

a) Nodi a sefydlu grŵp o gyrff dyfarnu y gallwn ymgynghori â nhw wrth i ni ddatblygu camau gweithredu penodol ymhellach mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg a dwyieithog.

b) Drwy'r grŵp hwn, ystyried hyfywedd creu system a all gyfateb cyrff dyfarnu â gwirwyr allanol / aswirwyr ansawdd allanol a all ddilysu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hoffem eich gwahodd i fod yn rhan o'r grŵp y cyfeirir ato ym mlaenoriaeth a) uchod. Byddwn yn cysylltu ag aelodau'r grŵp ar sail ad hoc er mwyn profi datblygiadau polisi. Rhagwelir y caiff hyn ei wneud yn gyffredinol drwy e-bost, ond efallai bydd angen weminarau, cynadleddau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb weithiau.

Y datblygiad cyntaf yr hoffem ei brofi yw b) uchod; creu system a all gyfateb cyrff dyfarnu â gwirwyr allanol / aswirwyr ansawdd allanol a all ddilysu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y trafodwyd yn y Fforwm Cyrff Dyfarnu, un ffordd bosibl o wneud hyn yw drwy LinkedIn, a hoffem archwilio hyn ymhellach gyda chi.

Rhowch wybod i mi os hoffai eich corff dyfarnu gael ei gynrychioli ar y grŵp hwn, erbyn 8 Mai 2017 fan bellaf, gan gadarnhau manylion cyswllt y cynrychiolydd. Gallwch ddanfon y manylion hynny at polisi@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir



Kate Crabtree
Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Ymchwil

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701